---

**PWYLLGOR ARCHWILIO 10-03-11**

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John P. Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Tom Ellis, Keith Greenly-Jones, Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Charles W. Jones, Llinos Merks, Ioan Thomas, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Margaret Griffith, R.L. Jones, Dewi Owen, Gethin Williams

Croeso
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Llinos Merks i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2011, fel rhai cywir.

**3. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2011**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2010 a 31 Ionawr 2011. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 17 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 3 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 3 archwiliad dilyniant.
- 0 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 6 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 32 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Nododd y swyddog ei fod wedi bwriadu cyflwyno adroddiadau ar y gwahanol ganolfannau hamdden i'r cyfarfod hwn. Cyfeiriodd at un adroddiad penodol a ryddhawyd mewn ffurf drafft yn Rhagfyr 2010 ar Ganolfan Hamdden Bro Ffestiniog ac adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn yn Ionawr 2011 y disgwyliwyd i'r adroddiad terfynol gael ei ryddhau erbyn diwedd Ionawr

2011. Byddai cyfle wedyn i drafod yr adroddiad hwnnw a'r adroddiadau ar ganolfannau hamdden a ryddhawyd yn y cyfnod blaenorol yng nghyfarfod Mawrth 2011. Trafodwyd y mater gyda'r Pennaeth Darparu a Hamdden, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, bu oediad cyn rhyddhau'r adroddiad terfynol ar Ganolfan Hamdden Bro Ffestiniog oherwydd newidiadau i drefniadau rheoli'r ganolfan. Oherwydd hyn ni fu'n bosibl rhyddhau'r adroddiad tefynol erbyn diwedd mis Ionawr - fe'i ryddhawyd yn ystod Chwefror 2011. Bwriedir cyflwyno'r adroddiad ar y ganolfan hamdden hon ynghyd â'r adroddiadau ar y canolfannau hamdden eraill i'r pwyllgor hwn yng Ngorffennaf 2011.

'Roedd crynodebau gweithredol yr 17 adroddiad o'r cynllun gweithredol wedi eu cynnwys fel atodiadau unigol. Rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn eu trefn ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Ysgol Friars**

Datganwyd pryder gan aelod parthed cymal ym mhrif ddarganfyddiadau'r archwiliad sy'n cyfeirio at y ffaith y gwelwyd mai nifer isel o gyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ac nad yw penderfyniadau a gymerwyd gan y llywodraethwyr tu allan i gyfarfodydd y Corff Llywodraethol bob amser yn cael eu cofnodi. 'Roedd o'r farn bod hyn yn wendid ar eu rhan o ystyried bod y Corff Llywodraethol yn gorff statudol ac yn gyfrifol am gyllid yr ysgol. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y cynhaliwyd profion archwilio ar 102 o reolaethau mewnol yn yr ysgol a dengys y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 86 o'r rheolaethau hyn. Cydnabu bod y pwynt hwn yn fater pwysig a nododd bod pennaeth yr ysgol a'r llywodraethwyr wedi derbyn copi o adroddiad yr archwiliad.

Nododd y Pennaeth Cyllid pan wnaed archwiliad blaenorol o reolaethau mewnol yr ysgol, darganfuwyd mwy o ddiffygion yr adeg hynny ac iddynt dderbyn categori barn "C". Dengys categori barn "B" y tro hwn bod sefyllfa rheolaethol yr ysgol wedi gwella.

Nododd aelod arall y dylid anfon neges i bob ysgol cynradd ac uwchradd yn tynnu eu sylw y dylai Corff Llywodraethol pob ysgol gofnodi pob penderfyniad yng nghofnodion y llywodraethwyr.

**Iechyd a Diogelwch – Y "Fflyd Lwyd"**

Mewn perthynas â barn yr archwiliad hwn, 'roedd aelod o'r farn y dylid bod yn fwy pendant sef na thelir costau teithio i unrhyw aelod o staff os nad ydynt yn dangos bod y cerbyd a ddefnyddir i bwrpas y Cyngor gyda MOT dilys a bod yr yswiriant wedi newid ar gyfer defnydd busnes. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei bod yn angenrheidiol bod y wybodaeth hon wedi ei gofnodi cyn i swyddog ddefnyddio ei gerbyd i fynd ar ddyletswydd y Cyngor gan ei bod yn rhy hwyr os yw'r daith wedi ei gwneud. Trafodwyd y mater gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol ar ôl rhyddhau'r adroddiad. 'Roedd wedi pwyso am gael gwell defnydd o'r system sydd yn ei le.

**Gwirio Rhestrau Gweithwyr**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai pwrpas rhestrau gweithwyr yw gwneud prawf i adnabod gweithwyr ffug neu i adnabod gweithwyr sydd wedi terfynu eu cyflogaeth gyda'r Cyngor

ond yn parhau ar y gyflogres trwy amryfusedd. Nid oedd colled i'r Cyngor wedi ei amlygu yn yr archwiliad hwn, ond nododd bod achlysuron wedi codi lle 'roedd swyddogion wedi gadael cyflogaeth y Cyngor ond heb eu terfynu ar y system gyflogau, a hynny wedi ei ddarganfod ar hap.

**Paratoadau ar gyfer IFRS – Asedau Sefydlog**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Cyllid yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Paratoadau ar gyfer IFRS – Buddiannau Gweithwyr**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Cyllid yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Parc Gwledig Glynllifon**

Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod Parc Gwledig Glynllifon yn ddiweddar wedi cau Meithrinfa Goed Glynllifon a'r safle wedi ei waredu trwy dendr. 'Roedd o'r farn y dylid rhoddi ystyriaeth pellach i'r drefn dendro a ddefnyddiwyd i waredu'r safle, a'r cyfleon a roddwyd i bawb oedd wedi ymateb i'r gwahoddiad i dendro.

Cytunwyd bod adroddiad ar y drefn dendro i'w gyflwyno i'r pwyllgor nesaf.

**Diweddaru'r Wefan a Safle'r Mewnrwyd**

Mewn perthynas â'r paragraff cyntaf ym marn yr archwiliad, cyfeiriodd aelod at y ffaith bod gwahaniaethau rhwng y fersiwn Cymraeg a'r Saesneg. Ymddiheurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg am y camgymeriad hwn. Nododd y swyddog y teimlwyd bod yna oedi yn y drefn o ddiweddaru'r wybodaeth ar y safle we. Nododd hefyd bod nifer o gyrff cyhoeddus yn defnyddio'r we i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau. O safbwynt y mewnrwyd, mae mwy o risgiau yn gysylltiedig ag amodau gwaith, trefniadau gweinyddol a rheolaethol y Cyngor.

Cyfeiriodd aelod at y posibilrwydd o gyfuno safleoedd we Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy fel bod yr un fformat yn digwydd ar y dair safle. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod safleoedd we'r cynghorau yn debyg i'w gilydd o safbwynt fformat a.y. Cytunwyd i roddi ystyriaeth pellach i'r mater.

**Cytundebau Cynnal Ffyrdd**

Datganodd aelod bryder nad yw'r Cyngor yn cael gwerth am arian yn y maes hwn. Nododd nad yw'r gwaith cylchol gan gontractwyr yn mynd i dendr. Cyfeiriodd yn benodol at y gwaith a ymgymerwyd ar faes parcio'r llys newydd yng Nghaernarfon gan contractwr penodol a hefyd y gwaith cychwynnol ar y briffordd ger Dolgellau gan Gwmni Datrys. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod gwahanol fframweithiau'n bodoli a bod hysbysebion wedi ymddangos yn y wasg ar ôl yr archwiliad sy'n delio â rhai o brif bwyntiau'r archwiliad penodol hwn. Eglurodd hefyd ei fod yn ymwybodol bod y Cyngor wedi mynd i dendr os bydd prisiau'r fframwaith yn ymddangos yn uchel. Cytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa a chyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor os bydd angen.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2010 i 31 Ionawr 2011 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 4. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2010/11

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2010/11.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 25 Chwefror 2011 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 11 |
| Crewyd papurau gwaith | 4 |
| Gwaith maes ar y gweill | 14 |
| Cwblhawyd gwaith maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 8 |
| Adroddiad Terfynol | 66 |
| **Cyfanswm** | **106** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 2 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2010/11 yw i gael 85% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2011. Erbyn 25 Chwefror 2011, roedd 66 o'r adroddiadau wedi eu rhyddhau'n derfynol ac 8 adroddiad pellach wedi eu rhyddhau ar ffurf drafft. 'Roedd hyn yn cynrychioli 70% o'r cynllun.

'Roedd y swyddog yn hyderus y byddai'r archwiliadau eraill lle mae'r gwaith maes eisoes wedi dechrau, yn ogystal â'r rhai lle mae'r gwaith maes wedi ei gwblhau a'r un archwiliad oedd yn disgwyl adolygiad ar 25 Chwefror 2011, hefyd unai ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau neu wedi ei gau (fel sy'n briodol), cyn neu ar 31 Mawrth 2011. Byddai hyn yn cyfarfod â'r targed perfformiad ar gyfer 2010/11. Golygai hyn bod 15 archwiliad yng nghynllun 2010/11 lle na ddisgwylir i'r archwiliad gael ei gau, neu adroddiad terfynol ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2011 a rhoddodd fanylion am yr archwiliadau hynny i'r aelodau. Nododd y trosglwyddwyd y meysydd hyn i gynllun archwilio drafft 2011/12 lle'n briodol ac yn yr achosion hyn, anelir i gwblhau'r gwaith yn gynnar yn ystod 2011/12 gyda gwaith maes rhai archwiliadau yn dechrau cyn 31 Mawrth 2011.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog mai un addasiad sydd i'r cynllun archwilio yn ychwanegol i'r rhai a adroddwyd i gyfarfodydd blaenorol y pwyllgor. Er mwyn adlewyrchu'r anghenion am ddyddiau archwilio mewnol, trosglwyddwyd wyth diwrnod o'r archwiliad PQQ a Thendr Ysgol yr Hendre i'r archwiliad Llwybrau Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2010/11.**

## 5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoddi manylion am gynllun drafft o waith yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2011/12 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo, yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach gyda swyddogion.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan y "dylai'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo, ond nid cyfeirio, y cynllun archwilio". Mae'r adroddiad yn egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r pwyllgor.

Yn y cyfarfod ar 20 Rhagfyr 2007, cymeradwywyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011 gan y Pwyllgor Archwilio. Defnyddir y strategaeth yma fel sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n egluro sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sy'n eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

Nododd y swyddog bod nifer o ddatblygiadau'n digwydd ym maes Archwilio Mewnol ar hyn o bryd, yn bennaf oll prosiectau cydweithio gydag awdurdodau eraill, a allai gael effaith pellgyrhaeddol ar y ffordd y darperir y gwasanaeth yn y blynyddoedd nesaf. Eisoes fe adnabuwyd y maes gan Fwrdd Prosiect Cydweithio Gogledd Cymru fel un i'w ymchwilio ymhellach i ystyried opsiynau cydweithio, unai fel disgyblaeth ar ei ben ei hun, neu fel rhan o gynllun rhannu gwasanaethau cefnogol ehangach.

Nododd, gan bod ansicrwydd ynglyn â sut yn union y bydd Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu i'r Cyngor ar ôl Mawrth 2012, 'roedd o'r farn y byddai'n gamarweiniol i gyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2011 hyd at 2014 neu thu hwnt, gan nad yw'n gwybod ar hyn o bryd os y byddai mewn sefyllfa i gyflawni'r strategaeth honno. O ganlyniad, cynghorodd y pwyllgor mai'r ffordd mwyaf darbodus a phriodol i ddarparu gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2011/12 fyddai gwneud hynny ar sail Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011. 'Roedd o'r farn bod y strategaeth honno'n parhau'n addas a dilys.

Ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd, rhagwelir y bydd 1,529 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r cynllun archwilio. Mae hyn ar ôl ystyried darpariaethau ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb, gwaith ymatebol a gwaith dilyniant.

Nododd y defnyddir camau systematig i baratoi cynllun archwilio ar sail risg a rhoddodd fanylion am y camau hynny.

Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a'r rheolwyr perthnasol cyn dechrau ar yr archwiliadau ac fe ymgorfforir eu hawgrymiadau yn y cynllun terfynol.

Hysbysodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd ganddi wrthwynebiad i ddarparu gwasanaeth Archwilio Mewnol 2011/12 ar sail Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed defnydd cyfrifiaduron llaw gan ofalwyr cartref, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y cyfrifiaduron hyn yn fodd o wneud rhaglen waith y gofalwyr cartref yn fwy effeithiol.

Croesawodd aelod y bwriad i wneud archwiliadau yn ystod 2011/12 o drefniadau ariannol cartrefi preswyl y Cyngor a hefyd treuliau aelodau a threfniadau technoleg gwybodaeth i aelodau.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ymhellach, os oes aelod angen ychwanegu/addasu'r cynllun, yna dylid cysylltu ag ef.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo ymestyn strategaeth tair blynedd Archwilio Mewnol am flwyddyn ychwanegol hyd at 31 Mawrth 2012.**
**b) Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012, yn ddarostyngedig i fân addasiadau i'w gwneud gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.30am